

# YSGOL WAUNFAWR

## Polisi Atal Cyffuriau

### Rhesymeg :

Rydym yn cydnabod bod oed arbrofi gyda chyffuriau ar gynnydd a bod angen dechrau addysg gyffuriau cyn oed dechrau. Hefyd, rydym yn cydnabod bod rhai cyffuriau ar gael ym mhob cymuned yng Nghymru ac na allwn honni "Nad yw'n digwydd yma".

Dengys ymchwil bod y rhan fwyaf o blant wyth a naw oed yn gwybod am baraffernalia cymryd cyffuriau ac mae gan y rhan fwyaf o blant blwyddyn chwech wybodaeth eang am sylweddau, eu defnydd a'u heffeithiau.

Hefyd, gwyddom fod y teledu yn brif ffynhonnell gwybodaeth am gyffuriau ac alcohol i blant. Fodd bynnag, gan nad ydy plant yn gallu gofyn cwestiynau i'r teledu, weithiau byddant yn derbyn gwybodaeth anghywir, neu bryderon ac ofnau o ganlyniad i gamddealltwriaeth. Maent angen cyfle i ddelio gyda'r materion hyn gydag oedolion dibynadwy, i ddatblygu sgiliau bywyd i ddelio gyda sefyllfaoedd y bydd yn rhaid iddynt eu hwynebu efallai a chryfhau agweddau a gwerthoedd a fydd yn eu hamddiffyn a'u diogelu. Felly:

- Mae angen pwysleisio manteision ffordd o fyw iach a chyflwyno gwybodaeth a sgiliau i ddisgyblion wneud dewisiadau hysbys ac iach nawr ac yn nes ymlaen mewn bywyd.
- Rydym angen hybu iechyd a diogelwch cymuned yr ysgol ac amddiffyn lles pob disgybl.
- Rydym angen darparu canllawiau clir i alluogi staff i ymateb yn gyfrinachol ac yn sensitif os bydd unrhyw achosion sy'n ymwneud â chyffuriau ar dir yr ysgol neu yn y gymuned.
- Rydym yn cydnabod manteision gweithio gyda rhieni ac asiantaethau allanol eraill i sicrhau cysondeb ac agwedd positif tuag at addysg gyffuriau.
- Rydym yn cydnabod pwysigrwydd dechrau addysg gyffuriau yn yr ysgol gynradd yn unol â chanllawiau WAG.
- Fel ysgol, rydym wedi ymrwymo i'r project Ysgolion Iach ac yn cydnabod pwysigrwydd cynnwys ymwybyddiaeth gyffuriau yn y cwricwlwm ABCh i ddatblygu agweddau rhyngweithiol positif, patrymau ymddygiad, ffordd o fyw, gwerthoedd a sgiliau disgyblion.

## Pwrpas/Nod

### Addysg gyffuriau

- I sicrhau bod plant CA1 a CA2 yn derbyn addysg ar y materion canlynol yn unol â chanllawiau WAG:

<b>Cyfnod Allweddol</b>	<b>Fframwaith ABCh</b>	<b>Rheol Gwyddoniaeth Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru</b>
Cyfnod Sylfaen	Deall y cymerir meddyginiaeth er mwyn gwella, ond bod rhai cyffuriau yn beryglus.	Dylid dysgu disgyblion am rôl cyffuriau a meddyginiaethau.
2	Gwybod am effeithiau niweidiol tybaco, alcohol, toddyddion a sylweddau cyfreithiol ac anghyfreithiol eraill, iddyn nhw ac i eraill.	Dylid addysgu disgyblion am effeithiau niweidiol tybaco, alcohol, toddyddion a chyffuriau eraill.

- Sicrhau bod yr holl Staff sy'n cyfrannu yn derbyn hyfforddiant addas i'w galluogi i ddarparu rhaglenni ar sail sgiliau ac ymateb yn sensitif i brofiadau'r plentyn ei hun.
- Ymgynghori gyda rhieni a chynnig cefnogaeth ac arweiniad i'w hannog i chwarae rhan allweddol yn addysg gyffuriau eu plant.

### **Achosion sy'n ymwneud â Chyffuriau**

- Sicrhau bod pob disgybl ac aelodau o staff yn gwybod sut i ymateb os darganfyddir cyffuriau neu baraffernalia cyffuriau ar y safle.
- Egluro gweithdrefn delio gydag achosion sy'n ymwneud â chyffuriau a sicrhau bod pob aelod o staff yn gwybod am y gweithdrefnau a gymeradwy-wyd ac yn eu gweithredu.

### **Gweithredu Addysg gyffuriau**

- 1) Bydd yr ysgol yn cyfateb rhaglenni astudio gydag ymweliadau gan asiantaethau allanol ag enw da e.e. Sioe byped "Paid Cyffwrdd, Dwed".
- 2) Bydd y Plismon cyswllt ysgolion yn darparu sesiynnau dysgu gyda phlant cyfnod sylfaen , blwyddyn 3 a 4 a blwyddyn 5 a 6. Mae'r gweithgareddau hyn yn dysgu 'r plant sut i wahaniaethu rhwng cyffuriau neweidol a llesol i'r corff. Ym mhen ucha'r ysgol trafodir hefyd y cam ddefnydd o hydoddion acohol.

**Hyfforddiant:** Bydd yr ysgol yn cysylltu gyda Heddlu Gogledd Cymru a'r Gwasanaeth Hybu Iechyd i drefnu hyfforddiant rheolaidd i roi'r newyddion diweddaraf i staff a rhieni.

### **Achosion sy'n ymwneud â Chyffuriau**

Bydd yr ysgol yn delio gyda phob achos camddefnyddio sylweddau o ddifrif a byddant yn cael eu cyfeirio i'r Pennaeth. Mae'n hanfodol bod yr ymateb yn amddiffyn lles y disgyblion ac unrhyw unigolion eraill sy'n cyfrannu. Dylai staff wybod nad yw cyfrinachedd yn opsiwn pan fydd plant mewn perygl. Rydym wedi canfod sawl math o achosion a all wynebu cymuned ysgol gynradd.

### **Darganfod sylweddau peryglus**

Bydd yr ysgol yn sicrhau bod pob disgybl yn gwybod os byddant yn darganfod cyffuriau neu baraffernalia cyffuriau, dylent ei adael a hysbysu aelod o staff. (Gellir gwneud hyn trwy'r gwasanaeth boreol a "Paid Cyffwrdd, Dwed").

Bydd yr ysgol yn sicrhau bod pob aelod o staff yn gwybod am ac yn dilyn y gweithdrefnau a gymeradwy-wyd pan hysbysir hwy am unrhyw sylweddau peryglus ar y safle.

## ACHOSION SYDD ANGEN GWEITHREDU AR UNWAITH

- Oedolyn sy'n casglu plentyn neu berson ifanc yn ymddangos o dan ddylanwad diod neu gyffuriau; / *Gweithredu: gweithredu gweithdrefnau amddiffyn plant a gymeradwy-wyd, cynnwys yr heddlu os bydd yr oedolyn yn ymosodol.*
- Plentyn neu berson ifanc/oedolyn yn ymddangos yn sâl neu ddim yn ddiogel o ganlyniad i gamddefnyddio sylweddau; / *Gweithredu: ystyried gofyn am gyngor meddygol, nodi ffeithiau perthnasol a hysbysu'r rhiant/gofalwr.*
- Cyflenwi sylweddau ar neu ger y safle; / *Gweithredu: cysylltu â'r heddlu.*
- Mynediad parod i gyffuriau rheoledig; / *Gweithredu: cysylltu â'r heddlu.*
- Camddefnyddwyr sylweddau yn ymddwyn yn ymosodol / *Gweithredu: gofyn am gymorth gan yr heddlu ar frys.*
- Plentyn/person ifanc yn datgelu eu bod yn camddefnyddio cyffuriau neu eu rhieni neu aelodau eraill o'r teulu yn camddefnyddio cyffuriau; / *Gweithredu: Cysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol neu'r gwasanaeth camddefnyddio sylweddau arbenigol am gyngor ar sut i ymateb.*

## ACHOSION NAD OES ANGEN CYMRWD CAMAU GWEITHREDU AR UNWAITH

Efallai y bydd arsylwi, cyfweld, ymgynghori gydag asiantaethau eraill, monitro parhaus yn briodol pan fydd, er enghraifft:

- Honiadau neu bryderon cyffredinol am blentyn/person ifanc neu deulu penodol;
- Datgeliadau gwrthbrofi/anghyson;
- Pryderon ond dim tystiolaeth o gamddefnyddio sylweddau neu ymddygiad niweidiol neu droseddol cysylltiol (fel cyflenwi cyffuriau neu sylweddau niweidiol eraill);
- Pryderon ond dim tystiolaeth am berygl uniongyrchol i ddiogelwch.

## Cofnodi digwyddiadau

Mae'n arfer da i gofnodi achosion camddefnyddio sylweddau. Mae'n bosibl y bydd asiantaethau eraill fel gweithwyr proffesiynol iechyd, yr heddlu a gweithwyr cymdeithasol angen cofnodion o'r fath. Dylid cwblhau a ffeilio cofnodion gynted â phosibl ar ôl y digwyddiad.

Dylai'r aelod o staff a dderbyniodd wybodaeth am y digwyddiad wneud hyn a chael llofnod aelod o'r UDRh. (Gweler esiampl o ffurflen gofnodi isod)

Bydd staff yn derbyn hyfforddiant rheolaidd ynglyn â delio gyda digwyddiadau i sicrhau bod pawb yn gyfarwydd gyda'r weithdrefn.

## COFNOD O DDIGWYDDIADAU SY'N YMWNEUD Â CHYFFURIAU

Ysgol:	Dyddiad y Digwyddiad:	Dyddiad ac Amser:	
		Hysbyswyd gan:	
Disgybl(ion) dan sylw:	Enw(au):	Rhif Cyswllt y Cartref:	
Disgrifiad o'r Digwyddiad:			
<b>Categori'r Digwyddiad</b>	<b>Camau â gymerwyd</b>	<b>Gan</b>	<b>Cysylltwyd</b>
Sbwriel sy'n cynnwys cyffuriau ar neu ger safle'r ysgol			
Amheuaeth, cyhuddiad a datgeliad o fewn a thu allan i weithgareddau'r ysgol			

Symptomau camdefnyddio cyffuriau			
Disgyblion/rhieni gyda chyffuriau ar safle'r ysgol/taith/cludiant			
Rhiant/gofalwr sy'n dod i nôl y plentyn o dan ddylanwad cyffuriau/alcohol	Tynnwyd gan:	Ble y Cynhelir	Wedi cyflwyno derbynneb a'i arwyddo
Arall			

Llofnod \_\_\_\_\_

Cydlofnod \_\_\_\_\_

Trefniadau ar gyfer adolygu'r polisi –  
*adolygir pob tair blynedd*

Dyddiad Mabwysiadwyd gan y Cadeirydd Llywodraethwyr 10/5/07

Arwyddwyd gan y Cadeirydd \_\_\_\_\_

Dyddiad Chwefror 7fed 2013

